

Adran 1

Crynodeb

- 1.1 Mae Ofcom yn rheoleiddio ystod eang o wasanaethau rhaglenni ar-alwad, sy'n amrywio o wasanaethau dal i fyny darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau ffilmiau i archifau teledu lleol a gwefannau i 'oedolion'.
- 1.2 Ar hyn o bryd nid oes dim gofyniad statudol ar ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i sicrhau bod eu gwasanaethau yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ar gyfer gwasanaethau teledu darlledu, lle mae'n rhaid i ddarlledwyr gyrraedd targedau hygyrchedd penodol. Fodd bynnag, mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i annog darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i sicrhau bod mwy a mwy o'u gwasanaethau yn hygyrch. Mae darparwyr yn gallu gwneud hyn drwy ddarparu eu rhaglenni gydag is-deitlau, iaith arwyddion a/neu ddisgrifiadau sain¹ ("gwasanaethau mynediad" ydy'r enw ar y rhain gyda'i gilydd).
- 1.3 Mae Ofcom yn credu y dylai fod defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg yn cael mynediad gwell at deledu ar-alwad, fel y mynediad sydd ar gael ar hyn o bryd gyda theledu darlledu. Un ffordd gallwn ni hybu cynnydd yn y maes hwn ydy drwy gasglu data'n rheolaidd ynghylch pa mor hygyrch ydy gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Mae modd defnyddio'r data hwn i fesur cynnydd, ac yn bwysig, mae'n gallu helpu defnyddwyr i ganfod lle gallan nhw gael gafael ar gynnwys hygyrch ar-alwad.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. Mae'r prif ganfyddiadau'n cynnwys:
 - Yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd 68% o wasanaethau rhaglenni ar-alwad wedi darparu dim gwasanaethau mynediad o gwbl.
 - Roedd 32% wedi darparu rhywfaint o is-deitlau, a dim ond 6% oedd wedi darparu disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.
 - Ar gyfer defnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad, y lle gorau i wyllo cynnwys ar-alwad oedd ar gyfrifiadur personol drwy wefan – roedd 23% o ddarparwyr yn darparu is-deitlau drwy'r dull hwn.
 - Ar ben arall y sbectrwm, prin iawn oedd y darparwyr a oedd yn darparu is-deitlau drwy apiau teledu wedi'i gysylltu (6%) neu wasanaethau blwch pen-set fel Virgin, Sky ac YouView (7%). Mae hyn yn peri pryder penodol oherwydd mae grwpiau defnyddwyr fel yr RNIB, Action on Hearing Loss a Sense yn dal i ddweud wrthym ni fod nifer o'u haelodau yn hŷn a'i bod yn well ganddynt wyllo teledu dal i fyny drwy lwyfannau 'ystafell fyw' mwy confensiynol (hy blychau pen-set).
- 1.5 Er bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad wedi dweud wrthym fod rhwystrau technegol sy'n eu hatal rhag darparu gwasanaethau mynediad – ar gyfer is-deitlo yn benodol – ar draws amrywiaeth o lwyfannau, nid ydym yn credu bod y rhain yn anorchfygol. Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb llwyr am reoleiddio gwasanaethau mynediad ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad ym mis Ionawr 2016, mae Ofcom wedi

¹ Mae "disgrifiadau sain" yn wasanaeth sy'n darparu sylwebaeth i bobl sydd â nam ar eu golwg gan ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd ar y sgrin, mynegiant yr wyneb ac elfennau gweledol eraill rhaglen.

ymgysylltu â'r diwydiant ac â grwpiau defnyddwyr er mwyn deall y rhwystrau a hybu cynnydd cyflymach. Wrth i boblogrwydd gwasanaethau dal i fyny ac ar-alwad gynyddu² mae mynediad yn dod yn bwysicach, ac rydyn ni'n cydnabod ei bod yn debyg y bydd defnyddwyr yn teimlo'n rhwystredig oherwydd eu bod yn gallu gwyllo cynnwys gydag is-deitlau neu ddisgrifiadau sain ar deledu darlledu ond yna nid ydy'r gwasanaethau mynediad hyn ar gael iddynt ar wasanaethau dal i fyny ac ar-alwad.

- 1.6 Mae Ofcom yn credu'n gryf y dylai defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a/neu nam ar eu golwg allu cael gafael ar raglenni teledu. Nid yw Ofcom yn credu y bu digon o gynnydd a bod gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn dal i lusgo ar ôl gwasanaethau teledu darlledu. Rydyn ni felly'n annog darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i fynd i'r afael â'r rhwystrau, a byddwn yn parhau i ddefnyddio pob dull sydd gennym i hybu gwell hygyrchedd ar-alwad.

² Edrychwch ar Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu 2016 yn <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/cmr/cmr16>